

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW**  
**7:30YH 27<sup>AIN</sup> MEDI 2023**  
**CYNHALIWDYD YM MHANDY TUDUR**

**1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

**1.1** Croesawyd pawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Einir Williams (EW), Jane Roberts (JR), Ann Vaughan (AV), Diane Roberts (DR), Mark Davies (MD), Sara Thomas (ST), Gwydion Jones (GJ), Euros Williams (EUW) & Catrin Griffiths (Clerc, CWG)

**1.3** Ymddiheuriadau: Austin Roberts (AR), Myrddin Davies (MGD)

**2 DATGANIAD DIDDORDEB**

Dim datganiad.

**3 COFNODION I'W GWIRIO 19<sup>EG</sup> GORFFENNAF 2023**

Cynigwyd yn gywir gan AV ac eilwyd gan MD.

**4 MATERION YN CODI**

AV yn nodi fod yn dal angen torri o gwmpas y clawdd yr ardd goffa a'r arwydd 20 m.y.a. gan nad yw dal ddim yn amlwg a heb ei dorri ers sawl blwyddyn. CWG i gysylltu gydag Emyr o'r Cyngor Sir. Hefyd, nododd fod y llain blodau wedi ei dorri a'i hel.

Diolch yn fawr i Hywel Evans am ddod i dynnu lluniau o'r Cyngor Cymuned.

CWG wedi cael data o ddefnydd y wefan gan Arfon ar ffurf graff sy'n dangos cyfartaledd o tua 4 ymweliad y diwrnod.

Cynhaliwyd yr is-bwyllgor Llwybrau ac Amgylchedd nos Fercher 20/9/23 a oedd yn gyfarfod buddiol a llawer o syniadau wedi eu rhannu. Bydd CWG yn cynhyrchu tabl o'r hyn a drafodwyd i'w rannu gyda phawb yn y pwyllgor nesaf.

(EW yn cyrraedd ar ôl bod mewn pwyllgor arall)

Mae'r biniau bagiau baw ci wedi cyrraedd dros yr haf ac angen eu gosod. Penderfynwyd i bawb eu gosod yn eu pentrefi eu hunain. DR wedi clywed fod yna fagiau ar gael am ddim gan y cyngor.

Cronfa allweddol Adfywio - CWG wedi mynychu cyfarfod ar 4.8.23 ynglŷn â hyn. Mae grantiau ar gael os oes gan rywun prosiect i'w gynnal yn y gymuned.

Cyrsiau - CWG wedi mynychu cwrs Côt Ymddygiad ar 2.8.23 a '*Local Government Finance*' ar 19.9.23

Arwyddion cyflymder VAS - CWG am drefnu cyfarfod rhwng Richard Roberts o Gyngor Conwy, DR a CR i edrych ar leoliadau newydd. Mae posibilrwydd o ymestyn y lleoliad gyda'r terfyn cyflymder newydd.

HSBC wedi colli y cais ar gyfer bancio ar lein, diolch i EW am ei ddilyn i fyny ac ail-ddechrau'r broses.

**5 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**5.1** 0/51012 Pen Y Bryn Farm, LL22 8BE - sylwadau gan Julia Parry, Non Davies & Dr John & Catherine Hindle wedi eu derbyn ynglŷn a'r cais a'u pasio i ymlaen i bob cynghorydd.

Nododd CR fod y cais diwethaf yn 2014 wedi ei wrthod a dywedodd EW fod nifer o sylwadau wedi eu derbyn yn erbyn a byddai caniatáu'r datblygiad yn gosod cysail ar gyfer y dyfodol. DR yn nodi fod y llythrau yn erbyn yr oedd wedi eu derbyn yn poeni am y sŵn a'r ffaith eu bod mor uchel gyda'r llafnau mor agos at y tyrbeini. Dywedodd JR na fyddai o ddim budd i neb lleol a CR yn ategu hyn drwy ddweud mai cynhyrchu trydan ar gyfer y cwmni y byddai a ddim i'r fferm ei hunan. Penderfynwyd i wrthod y cais oherwydd effaith sŵn ac effaith niweidiol ar yr amgylchedd.

## **6 MATERION CYNGOR**

**6.1** Tybiau blodau - pwyllgor llwybrau ac amgylchedd am eu paratoi. Jackie yn fodlon helpu gyda'r tybiau blodau. EW yn sôn fod Charly Whyllie o Wytherin yn rhoi bylbiau a chompost yno.

**6.2** Beicio'n ddiogel - AV yn nodi nad yw'r arwyddion dal ddim i fyny ond mae wedi cael gwybod bod arwyddion newydd am fod yn cael eu defnyddio a bydd angen eu cymeradwyo yn gyntaf.

**6.3** Wedi derbyn 2 siec gan Gofgolofnau'r Dyffryn am gostau claddu llwch. Wedi gallu talu un i mewn ond roedd y llall yn ddyddiedig 6.1.23 (CWG wedi ei dderbyn ar 8.8.23) felly CWG wedi cysylltu yn ôl gyda hwy i drefnu cael un arall.

## **7 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

**7.1** Bont Dolhyfryd ar y A548 nepell o gyffordd i Pandy. Cerbyd wedi taro'r wal rhai wythnosau'n ôl, y cyngor wedi rhoi clawdd dros dro. Posib na fydd y wal yn cael ei godi nes ddechrau 2024. Dwi wedi gofyn am adolygiad diogelwch gan yr adran briffyrdd.

**7.2** Allt Waterloo - wal dal heb ei adnewyddu, bur debyg fydd hwnnw ddim yn cael ei wneud tan wanwyn 2024. Ond mae cyflwr y wal yn cael ei fonitro yn gyson.

**7.3** Gwaith o osod "cross drains " a "gulleys "newydd rhwng Tyddyn Deicws a chyffordd Llwynsaint wedi ei gyflawni wythnos yma.

**7.4** Mis nesa mi fydd y cyngor yn cychwyn ar y gwaith o adnewyddu "manhole cover" ger y Felin goed yn Llangernyw ac mi fydd na rheolaeth traffig.

EW yn nodi nad yw'r gwaith rhwng Tyddyn Deicws a Llwyn Saint wedi ei orffen. Mae cyflwr y ffordd wedi gwaethygu eto ar ôl glaw traw. MD yn nodi bod ffordd Plas yn Blaenau wedi ei adael hefyd.

[G] yn cyrraedd]

## **8 MATERION ARIANNOL**

**8.1** Hysbysiad taliad gan Gyngor Conwy am y *precept* wedi dyddio 7.8.23 i'r swm £5363. Arian llwybrau a TAW i ddod i mewn.

## **9 GOHEBIAETH**

**9.1** Achub Bywyd Cymru wedi cysylltu eisiau cofrestru'r diffibriliwr yn Llangernyw. CWG i gysylltu gyda Tomos Jones o Gerrigydrudion sydd wedi ei osod i ofyn am gyngor ynglŷn a phwy sy'n gyfrifol amdano.

**9.2** Anfoneb gan 'Parish Online' - 'Digital mapping' - £76.80 (arfer bod am ddim gyda BHIB) - CWG wedi ei ganslo dros yr haf gan obeithio fod hynny'n iawn gan bawb, mae'n bosib ailddechrau'r tanysgrifiad os oes angen, roedd i fod i adnewyddu ar 2.9.23. Pawb yn cytuno ei fod angen ei ganslo a ddim ei adnewyddu.

## **10 BILIAU**

**10.1** Ymaelodi gydag Un Llais am 2023-24 - £188

**10.2** Anfoneb gan Un Llais am gwrs Côt Ymddygiad CWG 2.8.23 - £38

**10.3** JRB Enterprise - Binau bagiau baw ci a bagiau - £786.24 i'w gymryd o'r arian etholiad

**10.4** Cost stamp CWG - £1.60

**10.5** Costau teithio CWG - 14 milltir @ 0.45c = £6.30

**10.6** Canolfan Gymunedol Bro Cernyw - £10

**10.7** Dei Evans torri mynwentydd - Awst £450 a Medi £700

**10.8** Blodau i dybiau Gwytherin - £64.83

Pasiwyd i dalu'r uchod i gyd.

## **11 MATERION LLEOL**

**MD** - gwair o flaen Glan Collen heb ei dorri unwaith eleni a bonyn coeden fawr o dan Bont Faen.

**DR** - llwybr troed o'r Bont Faen angen ei glirio, CWG i gysylltu gyda Kevin Roberts i ofyn a yw'n gallu gwneud y gwaith. Tynnodd sylw hefyd at lythyr Dr John & Catherine Hindle a bod graffiti wedi ei baentio yn Esgair Eithin a bod yr heddlu yn ymchwilio.

**AV** - arwydd ysgol ddim i'w weld ar ochr Parc Aelas. Hefyd, clawdd angen ei dorri yn ôl i ddangos yr arwydd 20 m.y.a. wrth yr Hen Felin. Mae mainc Ken Williams wedi ei gosod yn y fynwent gan Kevin Roberts. Cafodd alwad ffôn gan Lywodraeth Cymru oedd yn gwneud arolwg ynglŷn â band eang a soniodd am broblemau'r ardal gan dynnu sylw at Wytherin. Cynigiodd fod y cyngor cymuned yn rhoi cyfraniad i'r daith tractorau er cof am Emlyn, Llethr (EUW, EW a ST yn gadael er mwyn datgan diddordeb).

**DR** yn cytuno bod eisiau rhoi cyfraniad i'r gronfa a hefyd yn cynnig rhoi cwpan i Sioe Gwytherin er cof am Emlyn (os yw pwyllgor Sioe Gwytherin eisiau cwpan).

**GJ** yn cynnig rhoi cyfraniad o £30 a hefyd cynnig o gwpan a phawb yn cytuno. (EUW, EW a ST yn ail-ymuno).

EUW, EW a ST yn ddiolchgar iawn am y cynnig ac am drafod gyda phwyllgor Sioe Gwytherin.

EW, MD, CR a AV i gwrdd ar gyfer Pwyllgor Mynwentydd ar 14.10.23 gan gychwyn yn Llangernyw am 9:30.

## **12 CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher Hydref 25<sup>ain</sup> am 7:30 y.h yn Llangernyw.

Cyfarfod yn dod i ben am 9:25 y.h .

Cymerwyd y cofnodion gan CWG.